# BETH YW'R FFORWM BLYNYDDOEDD CYNNAR?

## CANLLAW CAM WRTH GAM I RIENI A GOFALWYR

Mae'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar yn gyfarfod amlasiantaeth rheolaidd, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd Iechyd, Addysg, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector ar draws Bro Morgannwg. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio, cefnogi ac adolygu plant o'u genedigaeth hyd at bum mlwydd oed a allai fod ag anghenion, anableddau a/neu anghenion gofal iechyd sy'n dod i'r amlwg fel y gallant gael mynediad i'w lleoliad gofal plant neu addysg.

**01** Bydd gweithiwr proffesiynol sydd eisoes yn ymwneud â'ch plentyn yn gwneud atgyfeiriad at y Fforwm Blynyddoedd Cynnar os yw'n pryderu y gallai fod gan eich plentyn angen sy'n effeithio ar ei fynediad i chwarae, gofal plant neu ysgol. Gall y Fforwm dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer plant sy'n byw ym Mro Morgannwg, sydd rhwng genedigaeth a phum mlwydd oed ac nad ydynt yn mynychu dosbarth meithrin neu ddosbarth derbyn ysgol. Unwaith y derbynnir yr atgyfeiriad, trafodir yn y cyfarfod nesaf a byddwch chi a'ch plentyn yn cael person allweddol wedi'i dyrannu atoch chi a fydd yn eich cefnogi drwy'r broses.

**02** Bydd eich person allweddol yn cysylltu â chi i gyflwyno eu hunain, rhannu'r canlyniadau, casglu gwybodaeth bellach, eich gwahodd i'n grŵp cymorth rhieni wythnosol ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os yw'ch plentyn yn mynychu lleoliad chwarae neu ofal plant gall aelod o'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar hefyd gysylltu ac ymweld â'r lleoliad. Os nad yw eich plentyn yn cael mynediad i leoliad chwarae/gofal plant, bydd yn gallu eich cyfeirio at ofal plant yn eich ardal, os mai dyna yw eich dymuniad, a'ch cefnogi chi a'ch plentyn trwy bontio i'r lleoliad.

**03** Bydd y Fforwm Blynyddoedd Cynnar yn adolygu eich plentyn ar adegau pontio allweddol neu, os byddwn yn derbyn gwybodaeth bellach gennych chi neu gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos. I'r mwyafrif o blant sy'n hysbys i'r Fforwm Blynyddoedd Cynnar, bydd y lleoliad yn gallu diwallu eu hanghenion o fewn eu hadnoddau presennol, eu harbenigedd a gyda chyngor a chymorth gan y Fforwm Blynyddoedd Cynnar. Os oes gan eich plentyn anghenion cymhleth iawn efallai y bydd angen cynlluniau cymorth neu gyllid ychwanegol arnynt er mwyn cael mynediad at eu lleoliad gofal plant/chwarae. Efallai y bydd angen ysgrifennu cynllun i ddiwallu anghenion eich plentyn yn eu lleoliad. Gallai hyn fod yn Gynllun Datblygu Unigol, Cynllun Gofal Iechyd Unigol, Asesiad Risg neu gynllun cymorth lleoliad.

**04** Bydd y Fforwm Blynyddoedd Cynnar yn adolygu eich plentyn y tymor cyn iddynt ddechrau ei meithrin ysgol. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys casglu'r wybodaeth ddiweddaraf a chydlynu'r gefnogaeth a'r cyngor y gall fod eu hangen i sicrhau y gall y feithrinfa gynnwys a chefnogi eich plentyn. Bydd cynrychiolydd y Fforwm Blynyddoedd Cynnar yn cysylltu â'r ysgol ac yn eu cefnogi wrth gynllunio ar gyfer pontio eich plentyn trwy rannu Proffil Un Tudalen, unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gennym, a thrwy ddarparu ymweliad pontio â'r ysgol. Byddwn yn gallu cynnig cyngor, arweiniad a hyfforddiant i'r ysgol i ddiwallu anghenion eich plentyn yn ogystal â mynychu unrhyw gyfarfodydd perthnasol. Gallwn hefyd gyfarwyddo'r ysgol i ysgrifennu neu adolygu Cynllun Datblygu Unigol, Cynllun Gofal Iechyd Unigol neu Asesiad Risg.

**05** Ar ôl i'ch plentyn drosglwyddo i feithrinfa neu ysgol, bydd ymwneud y Fforwm Blynyddoedd Cynnar yn dod i ben. Cyfrifoldeb yr ysgol fydd diwallu anghenion eich plentyn er mwyn sicrhau ei fod yn setlo ac yn cael mynediad i'w hawl llawn. Mae'r rhan fwyaf o blant, hyd yn oed y rhai ag anghenion cymhleth iawn, a allai fod angen mynychu darpariaeth arbenigol o'r dosbarth derbyn, fel arfer yn mynychu meithrinfa brif ffrwd. Mae pob ysgol ym Mro Morgannwg yn cael cyllid gan yr awdurdod lleol i gynnwys plant ag ystod o anghenion a gallant gael cyngor a chymorth gan dimau arbenigol a gwasanaethau allgymorth.

*Am fwy o wybodeth ebostiwch: earlyyearsforum@valeofglamorgan.gov.uk*